## ATODLEN 5

Rheoliad 21

## Ffioedd

**Ffi**

**1.** Caiff yr awdurdod lleol godi ffi, taladwy pan gyflwynir anfoneb, am y gweithgareddau a nodir yn y tabl canlynol; a swm y ffi fydd cost resymol darparu'r gwasanaeth, yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau canlynol.

| *Gwasanaeth* | *Uchafswm y ffi (£)* |
|---|---|
| Asesiad risg (am bob asesiad): | 500 |
| Samplu (am bob ymweliad unigol) [(i)]: | 100 |
| Ymchwiliad (am bob ymchwiliad unigol): | 100 |
| Rhoi awdurdodiad( am bob awdurdodiad unigol): | 100 |
| Dadansoddi sampl— | |
| a gymerir o dan reoliad 10: | 25 |
| a gymerir yn ystod monitro drwy wiriadau: | 100 |
| a gymerir yn ystod monitro drwy archwiliad: | 500 |

**(i)** Nid oes ffi'n daladwy pan gymerir ac y dadansoddir sampl er mwyn cadarnhau, yn unig, canlyniad dadansoddi sampl blaenorol.

**Personau sy'n atebol i dalu**

**2.**—(1) Mae unrhyw berson sy'n gofyn am unrhyw beth o dan y Rheoliadau hyn yn atebol am y gost.

(2) Fel arall, mae ffioedd yn daladwy fel a bennir yn yr anfoneb, gan y person perthnasol fel y'i diffinnir yn adran 80(7) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

(3) Pan fo mwy nag un person yn atebol, yna, wrth benderfynu pwy ddylai wneud taliad i'r awdurdod lleol—

(a) caiff yr awdurdod lleol rannu'r tâl rhyngddynt; a

(b) rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw gytundeb neu ddogfen arall a ddangosir iddo ynglŷn â'r telerau y cyflenwir y dŵr odanynt.